# Gwneud bomiau hadau




**Mae bomiau hadau yn ffordd wych o wasgaru blodau a dod â thipyn o liw i'ch gardd. Mae nhw'n symyl, yn sydyn ac yn hwyl.**

## Bydd angen

- Clai aersychu (clai crochenydd)
- Pridd potio
- Hadau
- Dŵr
- Carton wyau neu cynhwysydd arall

# Gwneud bomiau hadau

## Beth i'w wneud:

1. Yn gyntaf, mae angen clai arnoch. Gallwch wneud bomiau o unrhyw faint, ond rhai bach sy'n gweithio orau. Mae darn o glai tua modfedd mewn diametr yn gweithio'n dda.



2. Ychwanegwch yr un faint o bridd ag o hadau i'r clai. Ceisiwch gael tua 5 rhan o glai i 1-2 ran o bridd ac 1-2 ran o hadau



3. Defnyddiwch eich bysedd i gymysgu popeth fel bod yr hadau a'r pridd wedi'u gwasgaru trwy'r clai. Os yw'r cymysgedd yn briwsioni, ychwanegwch ychydig ddiferion o ddŵr.

4. Rholiwch y clai'n bêl (neu siâp arall) ac mae gennych fom hadau!

5. Chwiliwch am rywle i'w cadw. Mae hen focsys wyau yn lle da.

6. Gadwech i'r bomiau hadau sychu. Mae angen o leaif 24 awr i wneud hyn, nail ai ger ffenest neu mewn lle sych y tu allan fel sied yn yr ardd.

# Gwneud bomiau hadau

7. Penderfynwch lle i daflu eich bom hadau! Mae'n well dewis rhywle yn eich gardd sy'n cael llawer o haul. Mae'n gweithio orau os yw'r bomiau'n glanio ar bridd sydd wedi'i droi.

8. Os yw'n well gennych, gallwch eu plannu mewn potiau planhigion (un bom i bob potyn) neu mewn blwch ffenest (hyd at bedwar i bob blwch). Does dim angen eu claddu o dan y pridd, dim ond eu rhoi ar yr wyneb.

9. Cofiwch roi dŵr i'ch planhigion! Dylech ddechrau eu gweld yn tyfu ar ôl rhyw bythefnos.



Darluniad: Hannah Davies